

Cynllunio Parhad Busnes (CPB)

Dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 Adran 4(1) a Rheoliadau y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 (Cynlluniau Argyfyngau) 2005 Rhan 7 fe'i gwneir yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyngor a chymorth i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachol ac i sefydliadau gwirfoddol yng nghyswllt rheoli parhad busnes (RhPB) pe ceid argyfyngau (yn ôl diffiniad y Ddeddf).

Beth yw Rheoli Parhad Busnes (RhPB)?

Proses sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw yw Rheoli Parhad Busnes ac sy'n sicrhau bod darparwyr busnes a gwasanaeth yn medru goroesi digwyddiadau annisgwyl ac aflonyddgar sy'n cael effaith ar eu gwaith bob dydd a sicrhau adferiad unwaith eto. Bydd digwyddiadau pwysig, lefelau uchel o absenoldeb staff (beth bynnag yw'r achos) a gwasanaethau sylfaenol yn methu e.e. trydan, nwy a dŵr yn profi gallu sefydliad i reoli ei fusnes.


Mae'n rhoi'r fframwaith strategol i wella gwydnwch (gallu gwrthsefyll) sefydliad yn erbyn ymyrraeth. Ei bwrpas yw hwyluso systemau a phrosesau busnes allweddol i gael adfer ei busnes, a hynny mewn amser penodol.

Proses barhaus yw Rheoli Parhad Busnes sy'n helpu sefydliadau i ragweld aflonyddwch, beth bynnag yw ei darddiad a pha bynnag agwedd o'r busnes y mae'n cael effaith arni, ac i baratoi ar ei gyfer, ei osgoi, ymateb iddo ac adfer busnes wedi'r digwyddiad.

Gall methu ag ymateb i ddigwyddiadau o'r fath gael effaith drychinebus ar unrhyw fusnes. Yn ôl y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, mae 80% o fusnesau y mae digwyddiad difrifol yn cael effaith arnynt yn cau am byth neu'n rhoi'r gorau i fasnachu cyn pen 18 mis; mae hyn yn tanlinellu yr angen ar gyfer Rheoli Parhad Busnes a Chynllunio Parhad Busnes (RhPB & CPB).

Beth yw'r Drefn gyda Chynllunio Parhad Gwasanaeth?

Mae yna pump cam yn y cylch RhPB sy'n cynnwys: deall eich busnes, strategaethau RhPB, datblygu ymateb RhPB, dilyn y diwylliant ac yna arfer, cynnal a chadw ac archwilio. Nodir y cylch RhPB isod ac mae'n rhaglen barhaus wrth i'r busnes esblygu.



Lle gaf i fwy o wybodaeth?

Am fwy o wybodaeth am y cylch RhPB a fydddech cystal â chlicio:

<http://www.thebci.org/PocketsizeGPGIC.pdf>

Rhydd *Disgwyl yr Annisgwyl* gyngor ymarferol i fusnesau; rhestrau gwirio a thempladau ar asesiadau risg, parhad business ac ymateb brys. Gweler

http://www.londonprepared.gov.uk/business/london_first.pdf.

Er mwyn cynorthwyo busnesau i ddatblygu ac adolygu cynlluniau pandemig y ffliw, mae'r Llywodraeth wedi datblygu rhestr wirio: [Pandemic Flu Checklist for Businesses](#).

Mae'n nodi gweithgareddau pwysig a phenodol y gall sefydliadau ymgymryd â nhw i baratoi ar gyfer pandemig.

Darperir mwy o arweiniad i'r ymarferwyr gan y Llywodraeth. Er mwyn cael y cyngor hwn gan y Llywodraeth, cliciwch: <http://www.ukresilience.info/index.shtm>.

Cysylltiadau Defnyddiol

Yn y safleoedd gwe a restrir isod nodir busnesau sefydliadau sydd â gwybodaeth ddefnyddiol am RhPB a mwy o gyngor neu arweiniad ar fusnes os oes ei angen.

Swyddfa'r Cabinet

[Business Checklist for Flu Pandemic Planning \(PDF\)](#)

UK Resilience

<http://www.ukresilience.info/preparedness/businesscontinuity/index.shtm>

<http://www.ukresilience.info/index.shtm>

London Prepared

[Business Continuity Advice](#)

Yn cynnwys holiadur hunanasesiad 10 munud ac arweiniad cynllunio PB gan ddibynnu ar nifer y staff a gyflogir o 10 neu lai hyd at 250+

Llywodraeth Ei Mawrhydi – Paratoi ar gyfer Argyfyngau

[Business Continuity Advice](#)

Business Continuity Institute

[Good Practice Guidelines](#)

[Expecting the Unexpected \(PDF\)](#)

Cyswllt Busnes

[Prepare Your Business for Disaster](#)

Gwasanaeth Diogelwch yr MI5

[Security Advice - Business Continuity](#)

Asiantaeth yr Amgylchedd

[Asiantaeth yr Amgylchedd, Canllaw Paratoi am Lifogydd ar gyfer Busnes](#)

Llygad Busnes

www.busesseye.org.uk

